**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/07255/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

2 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Technoleg Aelodau Prosthetig GIG Cymru.

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu pa wasanaethau arbenigol fydd yn cael eu darparu bob blwyddyn, ac mae'n gwneud hynny drwy broses o flaenoriaethu ar sail y dystiolaeth. Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y GIG ac ar elfennau o'r cynllunio arferol sy'n digwydd ym maes cyllid a gwasanaethau o fewn y byrddau iechyd. O ganlyniad, bu'n rhaid symud y ffocws i feysydd o flaenoriaeth. Mae'r ddarpariaeth o brostheses pen-glin a reolir gan ficrobrosesydd (MPK) wedi cael ei rhoi ar restr statig y Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol, er bod hynny'n fater y bydd y pwyllgor yn parhau i'w ystyried.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod MPK yn rhan hanfodol o'r ymdrechion i wella canlyniadau adsefydlu ac ansawdd bywyd i bobl sydd wedi colli rhan o'u coes. Bydd fy swyddogion yn parhau i gyfathrebu'n rheolaidd â'r Pwyllgor a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sicrhau y bydd y dystiolaeth briodol ar gael i lywio eu penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.